OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 1279 (Cy.124) (C.42)

# HAWLIAU TRAMWY, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Troisannol) (Cymru) 2006

*Wedi'i wneud - - 10 Mai 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 103(3), (4) a (5) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ("Deddf 2000")(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn–

ystyr "Deddf 1980" ("the 1980 Act") yw Deddf Priffyrdd 1980(**2**);

ystyr "Deddf 1981" ("the 1981 Act") yw Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**3**).

### Y diwrnod penodedig

**2.** 11 Mai 2006 yw'r diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol Deddf 2000 ddod i rym–

(a) adran 47 (ailddynodi ffyrdd a ddefnyddir yn llwybrau cyhoeddus);

(b) adran 48 (hawliau cilffyrdd cyfyngedig);

(c) adran 49 (darpariaethau atodol at adrannau 47 a 48);

(ch) adran 50 (hawliau preifat dros gilffyrdd cyfyngedig);

(d) adran 51 (diwygiadau sy'n ymwneud â mapiau a datganiadau diffiniol a chilffyrdd cyfyngedig) i'r graddau y mae'n rhoi effaith i'r darpariaethau yn Atodlen 5 y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (dd) ac (e) isod;

(dd) yn Rhan I–

(i) paragraff 1 (dyletswydd i adolygu mapiau a datganiadau diffiniol yn barhaus);

(**1**) 2000 c. 37.
(**2**) 1980 c. 66.
(**3**) 1981 c. 69.

(ii) paragraff 5 (dim arolygon nac adolygiadau pellach o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad at Gefn Gwlad 1949);

(iii) paragraff 6 (effaith map a datganiad diffiniol);

(iv) paragraff 9 (dehongli Rhan III);

(e) Rhan II;

(f) adran 102 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau yn Atodlen 16 (diddymiadau sy'n ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus a thraffig ffyrdd) y cyfeirir atynt ym mharagraffau (ff) i (ng) isod;

(ff) Rhan II i'r graddau y mae'n diddymu adran 54 o Ddeddf 1981;

(g) Rhan II i'r graddau y mae'n diddymu adran 56(5) o Ddeddf 1981;

(ng) Rhan II i'r graddau y mae'n diddymu rhan o adran 57(1) o Ddeddf 1981;

(h) adran 57 (creu, cau a gwyro priffyrdd) i'r graddau y mae'n rhoi effaith i'r ddarpariaeth y cyfeirir ati yn is-baragraff (j) isod;

(i) adran 69(2) o Ddeddf 2000 (diwygio adran 147(5) o Ddeddf 1980 sy'n ymwneud â'r dehongliad o gyfeiriadau at dir amaethyddol ac at dir yn cael ei ddefnyddio o'r newydd ar gyfer amaethyddiaeth at ddibenion adran 147 o Ddeddf 1980);

(j) is-baragraff (8) o baragraff 23 o Atodlen 6 i'r graddau nad yw'r is-baragraff hwnnw eisoes mewn grym.

**Darpariaethau trosiannol**

**3.**—(1) Ni fydd dim yn adran 47 na 48 o Ddeddf 2000 yn effeithio ar weithredu adran 53 na 54 o Ddeddf 1981 nac ar Atodlen 14 na 15 iddi mewn perthynas â gorchymyn perthnasol neu gais am orchymyn perthnasol a wnaed cyn 11 Mai 2006.

(2) Ym mharagraff (1) mae i "gorchymyn perthnasol" yr ystyr a roddir i "relevant order" yn adran 48(10) o Ddeddf 2000.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*D. Elis-Thomas*

10 Mai 2006 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 c. 38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau penodol Rhan II o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ("Deddf 2000") ar 11 Mai 2006 o ran Cymru.

Mae adrannau 47 i 50 o Ddeddf 2000 yn rhoi i'r cyhoedd hawliau cilffyrdd cyfyngedig o ran "ffyrdd a ddefnyddir yn llwybrau cyhoeddus" ("FfDdLlCau") sydd i'w hadnabod yn lle hynny fel cilffyrdd cyfyngedig. Hawliau cilffyrdd cyfyngedig yw hawl tramwy ar droed, hawl tramwy ar gefn ceffyl neu'n tywys ceffyl, a hawl tramwy ar gyfer cerbydau nad ydynt yn gerbydau a yrrir yn fecanyddol. Nid yw rhoi hawliau cilffyrdd cyfyngedig yn nacáu bodolaeth hawl tramwy ar gyfer cerbydau a yrrir yn fecanyddol nac unrhyw hawl arall (erthygl 2).

O dan adrannau 53 a 54 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (p.69) ("Deddf 1981") mae'n ofynnol i awdurdodau arolygu wneud gorchmynion diwygio mapiau diffiniol. Mae Gorchmynion a wneir o dan adran 53 o Ddeddf 1981 yn ymwneud â dyletswydd awdurdod o dan yr adran honno i adolygu'r map a'r datganiad diffiniol yn barhaus, ac maent yn cael eu gwneud o ganlyniad i ddigwyddiadau penodol a nodir yn yr adran honno. Mae a wnelo un o'r digwyddiadau hynny ag awdurdod yn cael hyd i dystiolaeth sydd, wrth ei hystyried ynghyd â phob tystiolaeth berthnasol arall sydd ar gael, yn dangos y dylid newid y disgrifiad o briffordd benodol ar fap a datganiad diffiniol. Mae Gorchmynion a wneir o dan adran 54 o Ddeddf 1981 yn ymwneud â dyletswydd awdurdod o dan yr adran honno i ailddosbarthu FfDdLlCau yn llwybrau ceffylau, llwybrau troed neu gilffyrdd sy'n agored i bob traffig.

"Gorchmynion perthnasol" at ddibenion adran 48(9) o Ddeddf 2000 yw gorchmynion yn y dosbarth cyntaf sy'n ymwneud â FfDdLlCau a gorchmynion yn yr ail ddosbarth ac yn unol â gofynion yr adran honno nid oes dim yn adran 47 nac yn adran 48 o Ddeddf 2000 yn effeithio ar weithredu adran 53 nac adran 54 o Ddeddf 1981 nac ar Atodlen 14 neu 15 iddi mewn perthynas â'r gorchmynion hynny pan wnaed y gorchmynion hynny, neu pan wnaed cais am y gorchmynion hynny, cyn 11 Mai 2006 (erthygl 5).

Mae adran 54 o Ddeddf 1981 yn peidio â bod yn effeithiol ac o ganlyniad i hynny caiff awdurdodau arolygu eu rhyddhau o'r ddyletswydd i ailddosbarthu FfDdLlCau a osodir gan yr adran honno (erthygl 2).

Mae adran 51 o Ddeddf 2000 ac Atodlen 5 iddi yn gwneud diwygiadau canlyniadol a pherthnasol i ddeddfwriaeth sylfaenol (erthygl 2).

Mae cychwyn adran 57 at ddibenion gwneud paragraff 23(8) o Atodlen 6 i Ddeddf 2000 yn effeithiol yn rhoi pŵer i arolygwyr ddyfarnu costau o ran gwrandawiadau a gynhelir o dan baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Priffyrdd 1980 (darpariaethau ynghylch gwneud, cadarnhau, dilysrwydd a dyddiad gweithrediad gorchmynion penodol sy'n ymwneud â llwybrau troed a llwybrau ceffylau), ac mae'n cymhwyso adran 322A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p.8) (gorchmynion sy'n ymwneud â chostau pan na fo gwrandawiad neu ymchwiliad yn cael ei gynnal) o ran gwrandawiadau neu ymchwiliadau lleol a gynhelir o dan y paragraff hwnnw. Daethpwyd â'r ddarpariaeth hon i rym i'r graddau y mae'n ymwneud â gorchmynion i gau neu wyro priffyrdd penodol a'r priffyrdd hynny yn croesi tir a feddiennir at ddibenion ysgol gan erthygl 3 o Orchymyn Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1314 (Cy. 96) (C.58)) (erthygl 2).

Mae cychwyn adran 69(2) o Ddeddf 2000 yn estyn y diffiniad o "agricultural land" a geir yn adran 147 o Ddeddf 1980 at ddibenion pŵ er yr awdurdod cymwys o dan yr adran honno i awdurdodi codi

camfeydd (sticlau), clwydi (giatiau, ietau), neu weithiau eraill mewn perthynas â thir o'r fath ac i dir o'r fath gael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol (erthygl 2).

Mae adran 102 o Ddeddf 2000 ac Atodlen 16 iddi yn peri diddymiadau canlyniadol i ddarpariaethau penodol o Ddeddf 1981.

Y map a'r datganiad diffiniol ar gyfer unrhyw ardal yw'r cofnod cyfreithiol o hawliau tramwy'r cyhoedd a baratoir ac a adolygir gan yr awdurdod arolygu ar gyfer yr ardal honno (y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol y mae ei ardal yn cynnwys yr ardal honno). Gellir edrych ar y map a'r datganiad diffiniol yn swyddfeydd y cyngor ar bob adeg resymol.

**NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Daethpwyd â darpariaethau canlynol Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i rym yng Nghymru gan orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn–

| *Adran(nau) neu Atodlen(ni)* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| 2 | 28 Mai 2005 | 2005/423 (Cy.41) (C.19) |
| 12 i 14 | 28 Mai 2005 | 2005/423 (Cy.41) (C.19) |
| 18, 20 a 46(1)(a) | 21 Mehefin 2004 | 2004/1489 (Cy.154) (C.59) |
| 46(1)(b) | 1 Mai 2001 | 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 46(3) (yn rhannol) | 1 Mai 2001 | 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 46(3) (yn rhannol) | 28 Mai 2005 | 2005/423 (Cy.41) (C.19) |
| 51 (yn rhannol) | 31 Mai 2005 | 2005/1314 (Cy.96) (C.58) |
| 51 (yn rhannol) | 21 Tachwedd 2005 | 2005/1314 (Cy.96) (C.58) |
| 57 (yn rhannol) | 1 Mai 2001 | 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 57 (yn rhannol) | 31 Mai 2005 | 2005/1314 (Cy.96) (C.58) |
| 57 (yn rhannol) | 15 Gorffennaf | 2005/1314 2005 (Cy.96) (C.58) |
| 57 (yn rhannol) | 21 Tachwedd 2005 | 2005/1314 (Cy.96) (C.58) |
| 60 a 61 | 1 Tachwedd 2002 | 2002/2615 (Cy.253) (C.82) |
| 63 | 1 Ebrill 2004 | 2004/315 (Cy.33) (C.16) |
| 68 | 1 Mai 2001 | 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 70(1) | 1 Ebrill 2004 | 2004/315 (Cy.33) (C.16) |
| 70(2) | 1 Mai 2001 | 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 70(3) | 1 Ebrill 2004 | 2004/315 (Cy.33) (C.16) |
| 70(4) | 1 Mai 2001 | 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 72 | 1 Mai 2001 | 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| Rhan IV (adrannau 82 i 93) (ac, yn unol â hynny, Atodlenni 13 i 15) | 1 Mai 2001 | 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |

| *Adran(nau) neu Atodlen(ni)* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| 96 | 1 Mai 2001 | 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 99 | 30 Ionawr 2001 | 2001/203 (Cy.9) (C.10) |
| 102 (yn rhannol) | 1 Mai 2001 | 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 102 (yn rhannol) | 28 Mai 2005 | 2005/423 (Cy.41) (C.19) |
| Atodlen 2 | 28 Mai 2005 | 2005/423 (Cy.41) (C.19) |
| Atodlen 4, paragraffau 1, 4, 5 a 6 | 1 Mai 2001 | 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| Atodlen 4, paragraffau 2 a 3 | 28 Mai 2005 | 2005/423 (Cy.41) (C.19) |
| Atodlen 5, paragraff 2 | 21 Tachwedd 2005 | 2005/1314 (Cy.96) (C.58) |
| Atodlen 5, paragraffau 8, 10 ac 11 | 31 Mai 2005 | 2005/1314 (Cy.96) (C.58) |
| Atodlen 6, paragraffau 1, 6 a 9(5) | 1 Ebrill 2004 | 2004/315 (Cy.33) (C.16) |
| Atodlenni 6, paragraffau 2, 3, 9(1) i (3), 11, 14(1) a (4)(a), 20(a) i (c) a 24 | 31 Mai 2005 | 2005/1314 (Cy.96) (C.58) |
| Atodlen 6, paragraff 5 (yn rhannol), paragraff 8 (y gweddill), paragraff 12 (yn rhannol), paragraffau 13(1) i (4) (yn rhannol), (5)(a) i (d) (yn rhannol) a (7) i (9) (yn rhannol), paragraff 14 (yn rhannol), paragraff 17 (yn rhannol), paragraff 18(a) (yn rhannol) a (b), paragraff 19 (yn rhannol), paragraff 20(d) ac (e), paragraff 21 (yn rhannol), paragraffau 23(1) (yn rhannol), (2)(a) a (b) (yn rhannol), (3)(a) a (b) (yn rhannol), (4)(a) a (b) (yn rhannol), (5) (yn rhannol), (7) (yn rhannol), (8) (yn rhannol), 9(a) a (9)(b) (yn rhannol) | 15 Gorffennaf 2005 | 2005/1314 (Cy.96) (C.58) |
| Atodlen 6, paragraff 4, paragraff 15 (yn rhannol) | 21 Tachwedd 2005 | 2005/1314 (Cy.96) (C.58) |
| Atodlen 6, paragraffau 18(a) (yn rhannol) a 19 (yn rhannol) | 1 Mai 2001 | 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| Atodlen 16, Rhan I (yn rhannol) | 1 Mai 2001 | 2001/1410 (C.50) |
| Atodlen 16, Rhan I (yn rhannol) | 21 Mehefin 2004 | 2004/1489 (Cy.154) (C.59) |

| *Adran(nau) neu Atodlen(ni)* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Atodlen 16, Rhan I (y gweddill) | 28 Mai 2005 | 2005/423 (Cy.41) (C.19) |
| Atodlen 16, Rhan II (yn rhannol) | 1 Mai 2001 | 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| Atodlen 16, Rhannau III i VI | 1 Mai 2001 | 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |

Gwnaed y Gorchmynion Cychwyn canlynol o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 o ran Lloegr–

Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 1) 2001 (O.S. 2001/114) (C.4)

Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 2) 2002 (O.S. 2002/2833) (C.89)

Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 3) 2003 (O.S. 2003/272) (C.16)

Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 4) 2004 (O.S. 2004/292) (C.14)

Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 5) 2004 (O.S. 2004/2173) (C.93)

Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 6) 2004 (O.S. 2004/3088) (C.128)

Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 7) 2005 (O.S. 2005/827) (C.34)

Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 8) 2005 (O.S. 2005/1901) (C.81)

Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 9) 2005 (O.S. 2005/2459) (C.104)

Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 10) 2005 (O.S. 2005/2752) (C.112)